**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**
**Minister for Social Justice**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwylgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

SeneddDCC@senedd.cymru

18 Ionawr 2022

Annwyl Huw,

Rwy'n ysgrifennu atoch mewn perthynas â'r adroddiad a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 17 Ionawr ynglŷn â'r Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd a osodwyd ar 20 Rhagfyr 2021 a 7 Ionawr 2022.

Rwy'n nodi eich dau argymhelliad ac mae fy ymateb wedi'i amlinellu isod.

*Argymhelliad 1. Cyn y ddadl ar y cynnig cydsyniad perthnasol, dylai'r Gweinidog egluro'r gwahaniaeth rhwng y ffigur a nodir ym mharagraff 3 o Femorandwm Rhif 3 a nifer y cymalau a restrir wedi hynny ym mharagraffau 9 i 13*.

Ymateb:

Digwyddodd gwall wrth ddrafftio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) (SLCM Rhif 3). Dylai paragraff 3 o SLCM (Rhif 3) fod wedi nodi bod 18 cymal sy'n gofyn am gydsyniad y Senedd yn hytrach na 15.

Y 18 cymal y cyfeirir atynt ym mharagraffau 9 i 13 o SLCM (Rhif 3) yw'r rhai a ddiwygiwyd gan welliannau a osodwyd ar 1 Rhagfyr 2021 ac a ddylai fod yn destun Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.
.

*Argymhelliad 2. Cyn y ddadl ar y cynnig cydsyniad perthnasol, dylai'r Gweinidog esbonio pam mae'r sefyllfa o ran goblygiadau ariannol wedi newid.*

Ymateb:

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Dylai'r wybodaeth am oblygiadau ariannol fod wedi'i chynnwys ym mhob un o'r Memoranda a osodwyd mewn perthynas â'r Bil. Gwall drafftio oedd yn gyfrifol am hepgor yr wybodaeth hon, a dim ond cyn cyhoeddi SLCM (Rhif 3) y cafodd y gwall ei nodi.

Hoffwn ymddiheuro am y camgymeriad a gallaf gadarnhau, fel y nodwyd yn SLCM (Rhif 3) a SLCM (Rhif 4) y bydd goblygiadau ariannol yn deillio o’r Bil, o bosibl, ond na fydd hyn yn glir hyd nes y gweithredir y mesurau yn y Bil.

Anfonir copi o’r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Jenny Rathbone AS, a holl Aelodau'r Senedd.

Yr eiddoch

**Jane Hutt AS/MS**
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice